SWYDDOGOL

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Perfformiad Strategol** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys SCC119** |
| **Dyddiad:** | **14 Mai 2026** |
| **Amser:** | **1pm–4pm** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles (PG)<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro, Gary Phillips<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Ross Evans (PGC)<br>Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>Pennaeth Strategaeth a Pholisi Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Claire Bryant<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Alison Perry |
| **Hefyd yn bresennol:** | Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, Yr Uwch-arolygydd Dros Dro, Mark McSweeney<br>Uwch-reolwr Perfformiad a Dadansoddeg, Lowrie Proctor<br>Swyddog Staff, Yr Arolygydd Sam Gregory<br>Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM)<br>Aelod o’r Panel Heddlu a Throseddu, yr Athro Ian Roffe<br>Aelod o’r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Keith Evans (KE) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a’r Sefydliad, Linda Williams |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) bawb i’r cyfarfod, gan gynnwys aelodau o’r Panel Heddlu a Throseddu a oedd yn bresennol fel arsylwyr.

Nododd y CHTh ei ddiolch i’r Prif Gwnstabl (PG) am daith feiciau elusennol lwyddiannus yr heddlu o Ddinbych-y-pysgod i’r pencadlys yng Nghaerfyrddin yr wythnos flaenorol i godi arian ar gyfer elusen Care of Police Survivors (COPS).

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Y diweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| SPB 035 | Bydd yr heddlu'n rhannu manylion adolygiad a gynhaliwyd ynghylch cofnodi dwyn oddi ar y person gyda SCHTh. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 036 | Bydd yr heddlu'n rhoi esboniad o'r gostyngiad yn ffigurau troseddau dwyn o gerbydau. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 037 | Bydd yr heddlu'n cadarnhau sut y bydd niferoedd troseddau dwyn o gerbydau yn cael eu monitro. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 038 | Bydd yr heddlu'n ystyried pa hyfforddiant a roddir i swyddogion ynghylch cofnodi troseddau. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 039 | Bydd yr heddlu'n rhannu data/ffigurau trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ynghylch y Gymraeg gyda SCHTh. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 040 | Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i sifftiau nos Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn cael ei rhoi i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu maes o law. | Ar y gweill |
| SPB 041 | Bydd SCHTh yn trefnu cydymffurfiaeth â'r Gymraeg fel pwnc ffocws yn y Bwrdd Plismona. | Ar y gweill<br><br>Wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2026 |

| | | |
|---|---|---|
| SPB 042 | Bydd yr heddlu yn darparu ffigurau siop-ladrad i'r SCHTh yn dilyn cynllun gwella ar gyfer mynd i'r afael â siop-ladrad. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 043 | Bydd yr heddlu'n ymgysylltu â chymdeithasau siopwyr annibynnol. | Wedi'i gwblhau |
| SPB 044 | Bydd yr heddlu yn rhannu gwerthusiad o'r newidiadau gweithredol ym Mhowys. | Ar y gweill |
| SPB 045 | Adroddiad ar esblygiad prosesau i'w rannu â'r CHTh drwy'r Bwrdd Plismona ar ôl y Pasg. | Ar y gweill |
| SPB 046 | Bydd yr heddlu'n cadarnhau ffigurau data Llais y Plentyn. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 047 | Bydd yr heddlu'n cadarnhau'r weithdrefn pan nad yw Adferiad ar gael yn y ddalfa (Eiliadau Cyraeddadwy). | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 048 | Bydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (PGC) yn darparu cyflwyniad ar strwythur timau plismona ac atal bro i'r CHTh. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 049 | Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth ynghylch y gostyngiad yn natrysiad cymunedol canlyniad 8. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 050 | Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth ynghylch pa asiantaethau sydd ynghlwm o dan ganlyniad 20. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 051 | Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth am gynnydd canlyniad 15 ynghylch troseddau meddu ar gyffuriau. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| SPB 052 | Bydd yr heddlu'n rhoi sicrwydd ynghylch casglu data i'w rhannu â gwasanaethau a gomisiynwyd. | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |

| | | |
|---|---|---|
| SPB 053 | Bydd y SCHTh yn bwydo ymholiadau atgyfeiriadau comisiynu i broses archwilio'r heddlu i sicrhau bod cwestiynau'n cael eu casglu. | Wedi'i gwblhau |

## 3. Perfformiad yr heddlu

### a) Adroddiad ar berfformiad yr heddlu

Paratowyd adroddiad cynhwysfawr gan Heddlu Dyfed-Powys i'w ystyried gan y Comisiynydd. Roedd yn cynnwys data o swyddfa'r Comisiynydd, gwasanaethau a gomisiynwyd a Heddlu Dyfed-Powys. Canolbwyntiwyd y sylw ar berfformiad yn erbyn blaenoriaeth un (Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth) o'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Trafododd y bwrdd y gwelliannau parhaus o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a chyfran y galwadau a atebwyd o fewn y dangosydd perfformiad allweddol 10 eiliad o 88.00% o alwadau 999 yn cael eu hateb mewn llai na 10 eiliad ym mis Tachwedd 2024 i 95.32% o alwadau 999 yn cael eu hateb mewn llai na 10 eiliad ym mis Mawrth 2026. Nodwyd hefyd y gwelliant yn yr amser aros cyfartalog yn ystod galwad o 7.96 eiliad ym mis Tachwedd 2024 i 4.67 eiliad ym mis Mawrth 2026.

Tynnodd y CHTh sylw at y gwerthusiad arfaethedig sydd ar ddod o Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu a newidiadau i shifftiau nos.

**Camau gweithredu: - Gwerthusiad o newidiadau i sifftiau nos Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona i'w drafod.**

Gofynnodd y CHTh am lefelau staffio a recriwtio o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Cadarnhaodd y PG fod ymgyrchoedd recriwtio rheolaidd yn digwydd o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn oherwydd trosiant staff o tua 15%, yn bennaf trwy ddatblygiad naturiol i feysydd eraill o'r sefydliad gan fod staff yn gweld Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu fel cam i mewn i'r sefydliad.

Tynnodd y CHTh sylw at waith Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd a adolygodd ddetholiad o alwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a chofnodion Storm cysylltiedig ym mis Mawrth 2026 mewn perthynas ag adroddiadau am droseddau gwledig. Dywedodd y PG y byddai'n fuddiol ymgorffori gweithgaredd y Panel Sicrhau Ansawdd ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i sicrhau adborth cyson i staff.

Trafododd y bwrdd amseroedd ymateb o fewn yr heddlu. Trafodir amseroedd ymateb yng nghyfarfodydd perfformiad wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (PGC) lle ceisir atebolrwydd gan gomanderiaid unedau rheoli sylfaenol. Tynnodd y PGC sylw at y gwaith sy'n mynd rhagddo ynghylch y Warant Plismona Bro a ddylai wella perfformiad amseroedd ymateb cyfartalog yn enwedig yn ardal Llanbedr Pont Steffan.

Adroddodd y Dirprwy Brif Gwnstabl fod y treial gliniaduron yn ardal Ceredigion yn mynd yn dda a'i fod yn galluogi swyddogion i beidio â gorfod dychwelyd i'r orsaf i gael mynediad at wybodaeth a chwblhau gwaith papur.

Trafododd y bwrdd werthusiad cynllun peilot model Uned Reoli Sylfaenol gogledd/de Powys a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo o ran esblygu'r broses. Mae'r gwerthusiad hwn i fod i gael ei rannu â'r CHTh mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Mehefin 2026.

**Camau gweithredu: - Gwerthusiad cynllun peilot model Uned Reoli Sylfaenol gogledd/de Powys i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar 26 Mehefin.**

**Camau gweithredu: - Diweddariad ar esblygiad y broses i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar 26 Mehefin.**

Nododd y CHTh y ffigurau amser ymateb cadarnhaol yn yr adroddiad ar gyfer ardal Aberdaugleddau. Dywedodd y PGC fod hyn oherwydd newid canolfan Aberdaugleddau i ganol y dref.

Trafododd y bwrdd niferoedd y troseddau a chywirdeb data, dywedodd y PG fod gwaith yn parhau trwy broses gaffael ar gyfer datrysiad deallusrwydd artiffisial o fewn yr heddlu i nodi pa droseddau y dylid eu cofnodi a sut y dylid eu cofnodi gan swyddogion. Cwestiynodd y CHTh amserlen y gwaith hwn, gyda'r PG yn datgan ei fod yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei weithredu erbyn diwedd Hydref 2026.

Trafodir yr adnoddau a'r galw yn y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yng nghyfarfodydd perfformiad wythnosol y PGC gan eu monitro'n ddyddiol, er mwyn galluogi'r heddlu i ymateb yn ddeinamig i sicrhau bod cysylltiad â dioddefwyr yn cael ei gynnal.

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ar y galw ar yr heddlu yn ystod yr haf mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Medi / Hydref.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y galw yn yr haf yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi/Hydref 2026.**

Cwestiynodd y PG y ffigurau yn ffigur 20 yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at gydymffurfiaeth â chofnodi troseddau o ran uniondeb data troseddau. Bydd yr Uned Gwella Gwasanaethau yn rhoi esboniad ynghylch y ffigurau.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i roi esboniad ynghylch ffigur 20.**

Cwestiynodd y CHTh y gostyngiad yn natrysiad cymunedol oedolyn canlyniad 8. Cymerodd yr heddlu gamau i ddeall y gostyngiad hwn.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddeall y gostyngiad yn nifer y datrysiadau cymunedol oedolion - o 6.5% i 4.8%.**

Bu'r bwrdd yn trafod troseddau siop-ladrad yn ardal yr heddlu. Nododd y prif swyddogion newid cadarnhaol mewn perthynas â chanlyniadau siop-ladrad.

Trafododd y bwrdd y ffigurau stelcio ac aflonyddu yn yr adroddiad. Darparodd y PGC wybodaeth am y panel ymyrraeth stelcio amlasiantaeth sy'n craffu ar bob achos stelcio, gyda'r rhai sydd angen diogelu neu ymchwilio ychwanegol yn cael eu huwchgyfeirio i drafodaethau strategaeth pellach.

Holodd y CHTh pam mae rhai gorchmynion amddiffyn rhag stelcio o fewn yr heddlu yn cael eu gwrthod.

**Camau gweithredu: - Gwasanaethau cyfreithiol i roi esboniad ynghylch pam mae rhai gorchmynion amddiffyn rhag stelcio yn cael eu gwrthod.**

Gofynnodd y CHTh i'r ffigurau ar gyfer Gwasanaethau i Ddioddefwyr gael eu darparu fel canrannau yn yr adroddiad.

**Camau gweithredu: - Ffigurau ar gyfer Gwasanaethau i Ddioddefwyr i'w darparu fel canrannau yn yr adroddiad.**

Codwyd ymholiad ynghylch pryd y mae canlyniad 13 (ymadawedig neu'n rhy sâl) yn cael ei gymhwyso i achos. Cymerodd yr heddlu gamau i ddarparu'r wybodaeth.

**Camau gweithredu: - Deall lefel y salwch sydd ei angen i gymhwyso canlyniad 13 (ymadawedig neu'n rhy sâl).**

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod ymchwiliadau i dreisio yn cynyddu, gyda chyfartaledd o un y dydd ar hyn o bryd, gyda throseddau rhywiol hefyd yn cynyddu. Nododd yr heddlu fod cyfran sylweddol wedi'u priodoli i droseddau plentyn ar blentyn.

Nododd y CHTh fod cynnydd cadarnhaol wedi bod yn y gyfradd gyhuddo am droseddau rhywiol. Esboniodd y PG y disgwylir cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Perfformiad yr Heddlu i esbonio'r gwaith sylweddol a wnaed i gyflawni hyn.

**Camau gweithredu: - Bydd y PG yn rhannu adroddiad ynghylch cynnydd yn y gyfradd gyhuddo o ran troseddau rhywiol.**

Trafododd y bwrdd gyfraddau canlyniadau cyffuriau o fewn yr heddlu a'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer meddu ar gyffuriau, gyda'r PG yn cyfeirio at werthusiad a gynhaliwyd a chraffu mewnol parhaus.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i rannu gwerthusiad interim canlyniad 8 gyda'r CHTh.**

Trafododd y bwrdd ffigurau siop-ladrad o fewn ardal yr heddlu. Ceisiodd y CHTh sicrwydd ynghylch gweithio mewn partneriaeth â manwerthwyr ar atal troseddu. Manylodd y prif swyddogion ar y dull o weithredu cynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau a sut mae'r rhain yn cael eu goruchwylio i sicrhau bod pob cyfle yn cael ei ystyried.

Trafododd y bwrdd atgyfeiriadau gwasanaethau dioddefwyr a data adborth boddhad dioddefwyr ynghylch yr wybodaeth a gynigir iddynt am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt. Holodd SCHTh sut mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro o ran y cynnig gwybodaeth a rhoddodd y prif swyddogion sicrwydd. Trafododd y bwrdd ymhellach yr heriau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ynghylch caniatâd gwybodus i optio i mewn/allan o atgyfeiriadau i wasanaethau dioddefwyr.

**Camau gweithredu: - Gwybodaeth i'w darparu ynghylch sut mae'r heddlu'n mesur cydymffurfiaeth â'r wybodaeth am wasanaethau i ddioddefwyr sy'n cael ei darparu.**

**Camau gweithredu: - Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnal ymarfer meincnodi gyda heddluoedd eraill ynghylch trosglwyddo data i drydydd parti.**

Yn dilyn etholiadau diweddar y Senedd, cododd y CHTh y syniad o wahodd aelodau newydd y Senedd ac aelodau Senedd i'r pencadlys i gyfarfod â'r PG, arweinwyr yr uned reoli sylfaenol a'r Comisiynydd. Cytunodd y PG y byddai hwn yn gyfarfod buddiol.

**Camau gweithredu: - Cyfarfod i'w drefnu ar gyfer aelodau'r Senedd gyda chomanderiaid yr unedau rheoli sylfaenol /CHTh/PG.**

## b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol

Bu'r bwrdd yn ystyried y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol.

Bu'r bwrdd yn trafod yn fyr y ffigur o 5 yn erbyn 7 o'r gwaelodlin ar gyfer llofruddiaeth, dynladdiad a llofruddiaethau eraill rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026 o fewn yr heddlu.

Holodd y PG a yw'r ffigurau ynghylch gwelliant mewn boddhad ymhlith dioddefwyr yn cael eu cymharu â heddluoedd eraill. Cadarnhaodd LP mai dim ond data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cael ei gymharu â heddluoedd eraill.

## 4. Unrhyw Fater Arall

| Cam gweithredu | Crynodeb o gamau gweithredu'r cyfarfod ar 14 Mai 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| SPB 054 | Gwerthusiad o newidiadau i sifftiau nos Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona i'w drafod. | Yr heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| SPB 055 | Diweddariad ar esblygiad y broses i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar 26 Mehefin. | Yr heddlu |
| SPB 056 | Gwerthusiad cynllun peilot model Uned Reoli Sylfaenol gogledd/de Powys i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar 26 Mehefin. | Yr heddlu |
| SPB 057 | Yr heddlu i roi esboniad ynghylch Ffigur 20. | Yr heddlu |
| SPB 058 | Yr heddlu i ddeall y gostyngiad mewn cyhoeddi datrysiadau cymunedol oedolion - o 6.5% i 4.8%. | Yr heddlu |
| SPB 059 | Ffigurau ar gyfer Gwasanaethau i Ddioddefwyr i'w darparu fel canrannau yn yr adroddiad. | SCHTh |
| SPB 060 | Deall lefel y salwch sydd ei angen i gymhwyso canlyniad 13 (ymadawedig neu'n rhy sâl). | Yr heddlu |
| SPB 061 | Bydd y PG yn rhannu adroddiad ynghylch cynnydd yn y gyfradd gyhuddo o ran troseddau rhywiol. | Yr heddlu |
| SPB 062 | Yr heddlu i rannu gwerthusiad interim canlyniad 8 gyda'r CHTh. | Yr heddlu |
| SPB 063 | Gwasanaethau cyfreithiol i roi esboniad ynghylch pam mae rhai gorchmynion amddiffyn rhag stelcio yn cael eu gwrthod. | Yr heddlu |
| SPB 064 | Gwybodaeth i'w darparu ynghylch sut mae'r heddlu'n mesur cydymffurfiaeth â'r wybodaeth am wasanaethau i ddioddefwyr sy'n cael ei darparu. | Yr heddlu |
| SPB 065 | Cyfarfod i'w drefnu ar gyfer aelodau'r Senedd gyda chomanderiaid yr unedau rheoli sylfaenol /CHTh/PG. | Yr heddlu/SCHTh |
| SPB 066 | Bydd SCHTh yn cynnal ymarfer meincnodi gyda heddluoedd eraill ynghylch trosglwyddo data i drydydd parti – (os nad ydyn nhw'n dewis peidio â gwneud hynny, byddwn ni'n dewis ymuno'n awtomatig) | SCHTh |
| SPB 067 | Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y galw yn yr haf yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi/Hydref 2026. | Yr heddlu |

CAU